DANGOS Y
DRWS I DROSEDD

HEDDLU
GWENT
POLICE

# CYMDOGAETHAU MWY DIOGEL



COMISIYNYDD YR
HEDDLU A THROSEDD
GWENT
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

@GP_WDBC

www.gwent.police.uk

Turn over for English.

2075_62

# GWYBODAETH

Adran newydd yn Heddlu Gwent yw **Dangos y Drws i Drosedd** sy'n mynd i'r afael â throsedd meddiangar yn ardaloedd awdurdod lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen, gyda chefnogaeth Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Rydym yn ymwybodol bod troseddau meddiangar - rhai lle mae'r troseddwr yn elwa'n faterol ar y drosedd - gan gynnwys byrgleriaeth, lladrata a dwyn yn niweidio ein cymunedau. Mae pobl yn teimlo ymlyniad emosiynol tuag at eu cartref a'u heiddo a phan mae trosedd yn tarfu ar hyn, mae'n gallu cael effaith barhaus ar y dioddefwyr. Mae Heddlu Gwent wedi ymroi i amddiffyn pobl rhag y troseddau hyn.

Mae **Dangos y Drws i Drosedd** yn pwysleisio'r ymroddiad hwn trwy ddefnyddio dull arloesol i leihau a tharfu ar y farchnad ar gyfer nwyddau wedi'u dwyn, gan amddiffyn eich cartref a'ch eiddo trwy eu gwneud yn llai deniadol i droseddwyr.

Rydym yn gweithio gyda gwerthwyr nwyddau ail law ac rydym wedi datblygu proses i sicrhau eu bod yn mabwysiadu arfer gorau. Maen nhw'n gweithio gyda'n timau plismona lleol i adnabod nwyddau wedi'u dwyn, adnabod troseddwyr a'i gwneud yn anoddach iddyn nhw elwa ar drosedd.

Mae gwybodaeth am y gwerthwyr hyn yn cael ei chofnodi ar borth unigryw sy'n helpu i nodi pa werthwyr sydd fwyaf mewn perygl o dderbyn eiddo wedi'i ddwyn.

Un o brif swyddogaethau'r porth yw galluogi swyddogion i anfon negeseuon e-bost yn rhybuddio am eiddo wedi'i ddwyn at siopau ar draws ardal y llu, gan ein galluogi ni i weithio'n fwy effeithlon ac effeithiol i amddiffyn ein cymunedau.

Mae gennym nifer o asedau rydym yn eu defnyddio hefyd fel cerbydau ac eitemau "cipio" ledled y llu; mae hon wedi profi i fod yn dacteg lwyddiannus iawn wrth adnabod troseddwyr a sicrhau euogfarnau yn eu herbyn.

Rydym wedi llunio partneriaethau gyda busnesau a chymunedau lleol gyda'r nod gyffredin o leihau trosedd. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n timau plismona cymdogaeth a SmartWater i ddefnyddio'r technolegau diweddaraf i fynd i'r afael â throsedd, drwy sicrhau bod eiddo mewn cartrefi'n cael ei farcio'n briodol a bod arwyddion yn cael eu harddangos.

Trwy weithio gyda phartneriaid, rydym yn bwriadu marcio eiddo cymaint o aelwydydd â phosibl er mwyn creu **Cymdogaethau Mwy Diogel Dangos y Drws i Drosedd**, er mwyn lleihau'r perygl rhag byrgleriaeth a dwyn yn sylweddol mewn cymunedau.

Fel cyngor cymuned, hoffem estyn gwahoddiad i chi ymuno â ni i ddefnyddio'r dull hwn.



# PAM DEFNYDDIO SMARTWATER I AMDDIFFYN CARTREFI AC EIDDO?

Mae'r dull hwn yn cael ei gefnogi gan amrywiaeth o ymchwil academaidd. Er enghraifft, wrth gyfweld â lladron ynghylch y dull atal gorau, sgoriodd SmartWater yn uwch na phob ffurf arall ar atal trosedd.

| MESURAU DIOGELWCH | SGÔR ALLAN O 10 |
|---|---|
| SmartWater | 8.3 |
| Patrolau heddlu amlwg | 7.4 |
| Tagiau inc | 7.2 |
| Systemau rheoli mynediad | 6.9 |
| Gridyllau ffenest | 6.7 |
| CCTV | 6.2 |
| Larymau lladron/tresmaswyr | 6.0 |
| Nwyddau mewn cas | 5.9 |
| Tagio electronig | 5.0 |
| Swyddogion diogelwch/Ditectifs siopau | 4.9 |
| Marcio eiddo | 4.8 |
| Drychau | 3.9 |
| Ffensys ffiniau | 3.8 |

Mae'r uchod yn pwysleisio'r effaith y gall marcio eiddo â SmartWater ei gael.

Mae holl swyddogion a gwerthwyr nwyddau ail law Gwent yn cael tortsh uwchfioled sy'n dangos marcio SmartWater, ac maent yn ei ddefnyddio wrth chwilio pobl dan amheuaeth ac eiddo a phan fydd rhywun yn dod â nwyddau i mewn i'w gwerthu.




# BETH YW SMARTWATER?

Sylwedd dŵr yw SmartWater sy'n cynnwys cod fforensig unigryw.

Mae pob pecyn yn cynnwys ei lofnod fforensig unigol ei hun; trwy farcio eiddo gyda SmartWater, os caiff eitem ei dwyn rydym yn fwy tebygol o allu ei holrhain a'i dychwelyd i'w gwir berchennog.
Mae hyn hefyd yn helpu i gysylltu troseddwyr gyda throsedd, ac mewn achosion llys lle defnyddir SmartWater fel tystiolaeth mae 100% o'r tramgwyddwyr wedi cael eu heuogfarnu.

Mae SmartWater yn hynod o effeithiol yn atal troseddwyr; dengys ymchwil na fyddai 74% o droseddwyr sy'n cyflawni troseddau meddiangar yn torri i mewn i eiddo sy'n dangos arwydd SmartWater.

# BETH YW CYMDOGAETH FWY DIOGEL DANGOS Y DRWS I DROSEDD?

Trefi a phentrefi yw **Cymdogaethau Mwy Diogel Dangos y Drws** i Drosedd lle mae pawb sy'n byw ynddynt yn cael cyfle i farcio eu heiddo gyda SmartWater am ddim. Yn ogystal, defnyddir arwyddion stryd dargyfeiriol (arwyddion rhybudd mawr ar y prif lwybrau i mewn ac allan o'r ardal ac arwyddion llai yn cael eu dangos trwy'r ardal gyfan).

Pwrpas yr arwyddion hyn yw gadael i unrhyw droseddwr posibl wybod os bydd yn cyflawni trosedd ei fod yn fwy tebygol o gael ei ddal ac yn llai tebygol o elwa ar ei ymddygiad troseddol.




# YDI'R DULL PENODOL HWN YN GWEITHIO?

Dechreuodd dull Dangos y Drws i Drosedd yn ardal Heddlu West Mercia ac, ers lansio'r cynllun bum mlynedd yn ôl, dyma beth maen nhw wedi ei gyflawni:

- **lleihad rhwng 30-50% mewn byrgleriaeth**
- **lleihad sylweddol mewn achosion o ladrad a throseddau eraill**
- **dangosodd dadansoddiad nad oedd cynnydd mewn trosedd mewn ardaloedd eraill o ganlyniad i'r ymgyrch a bod llai o drosedd mewn lleoliadau oedd hyd at 750 metr o'r ardaloedd a oedd yn defnyddio SmartWater**
- **canfu arolwg a anfonwyd chwe mis ar ôl dosbarthu bod dros hanner yr ymatebwyr yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i gael eu heiddo wedi'i farcio a SmartWater.**

Rydym yn credu trwy greu **Cymdogaethau Mwy Diogel Dangos y Drws i Drosedd** y byddwn yn gallu lleihau troseddau meddiangar yn sylweddol, yn ogystal â lleihau ofn pobl o drosedd. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth gyda phobl leol a chynghorau cymuned y bydd hyn yn bosibl.



# COSTAU POSIBL MARCIO EIDDO YN EICH CYMUNED

Mae'r gost sydd ynghlwm â gweithredu'r cynllun hwn yn cynnwys y pecynnau marcio eiddo (sy'n cael eu cynnig am bris gostyngol o £9.95 yn rhan o 'Dangos y Drws i Drosedd') a'r arwyddion cysylltiedig.

Yn seiliedig ar ein profiad blaenorol byddem yn argymell bod y cynghorau sydd â diddordeb mewn mabwysiadu'r ymgyrch hwn yn seilio eu hamcan o'r gost ar ddarparu pecynnau marcio eiddo SmartWater ar gyfer rhyw 75% o'r cartrefi yn yr ardal.

Mae'r gwaith sy'n cael ei gwblhau gan yr adran Dangos y Drws i Drosedd ar draws ardal y llu yn cefnogi'r agwedd hon; o'n gwaith gyda gwerthwyr nwyddau ail law, y gwiriadau mae ein swyddogion yn eu gwneud mewn perthynas â SmartWater, ein gwaith gyda phartneriaid, dioddefwyr a busnesau, i allu dadansoddol y tîm a'r adolygiad dyddiol o'r holl droseddau meddiangar ar draws ardal y llu; rydym yn defnyddio dull cydweithredol a chyfannol i fynd i'r afael â'r mathau hyn o droseddau.

Byddwn yn ariannu cost yr arwyddion dargyfeirio metel trwy'r ardal Cymdogaeth Fwy Diogel gyfan ac yn eich helpu chi i gyd-gysylltu'r gwaith o roi'r cynllun ar waith, gan ddarparu adnoddau i wneud hyn.

Rydym yn argyhoeddedig trwy atal trosedd rhag digwydd yn y lle cyntaf, y gallwn leihau'r gofid, y pryder a'r effaith a achosir. Trwy weithio gyda'n gilydd gallwn barhau i wneud ein cymunedau a'n cymdogaethau'n fwy diogel.

I ddod yn **Gymdogaeth Fwy Diogel Dangos y Drws i Drosedd** neu i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni ar **DangosyDrwsiDrosedd@gwent.police.uk**